Adroddiad i:	Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg
Dyddiad y cyfarfod:	Mawrth 5ed, 2025
Aelod Arweiniol/Swyddog	Cynghorydd Emrys Wynne/ Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Awdur yr adroddiad:	Gerallt Lyall, Swyddog Iaith Gymraeg,
Teitl:	Adroddiad Cynnydd Strategaeth Iaith Gymraeg 2023-28

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adroddiad gan y Swyddog Iaith ar gynnydd yn erbyn Strategaeth Iaith Gymraeg y Sir.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cyfle i aelodau a swyddogion ddarllen yr adroddiad er mwyn monitro'r cynnydd a gofyn unrhyw gwestiwn am y cynnydd neu'r Strategaeth.

3. Beth yw'r argymhellion?

Does dim argymhellion i'r adroddiad hwn gan ei fod yn adroddiad cynnydd

4. Manylion yr adroddiad

Thema 1 – Plant a Phobl Ifanc

- Cyfarfod gyda Catherine Taylor Prif Swyddog Ieuenctid - Staff gyda sgiliau Cymraeg ac yn gwneud sesiynau yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

- Rachel Williams a Tudur Parry wedi cytuno i fod yn Bencampwyr y Gymraeg o fewn y Gwasanaethau Ieuenctid. Taflenni Cymraeg achlysurol wedi eu rhoi i staff.
- Tudalen Addysg cyfrwng Cymraeg wedi ei gyhoeddi - 1,007 o ymweliadau
- Swyddog Iaith Hamdden Sir Ddinbych wedi mynd o gwmpas lleoliadau gyda bathodynnau Iaith Gwaith a sgwrsio gyda staff i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darparu gwasanaeth Cymraeg ac yn edrych i ofyn i staff fod yn bencampwr iaith.

Thema 2 – Y Gymuned

- Wedi cyfarfod gyda'r tîm Cynllunio Strategol i drafod monitro Adroddiadau Effaith ar Les - Bydd Pwyllgor Llywio'r Gymraeg yn helpu i fonitro effeithiolrwydd yr adroddiadau yma.
- Llyfrgelloedd - Sialens Darllen yr haf yn llwyddiant. Gŵyl Ffuglen -Tachwedd y Llyfrgell wedi cynllunio 2 awdures Cymraeg fel rhan o'r rhaglen
- Menter Iaith a RHAG wedi cydweithio gyda Llyfrgelloedd a Dechrau Da i gynnal Taith Magi Ann i ymweld â sesiynau Dechrau da o fewn ein Llyfrgelloedd er mwyn rhannu neges Manteision Addysg Gymraeg a dosbarthu Postcard Addysg Gymraeg Sir Ddinbych sydd wedi ei gynllunio gan Adran Addysg y Cyngor Sir.
- Cyfarfod wedi ei drefnu gyda Lara Griffiths Prif Swyddog Cynllunio i drafod cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol.
- Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd - Ymgyrch Mwy na geiriau - cydweithio rhwng Pencampwyr Cymraeg y Cyngor Sir i gynnal Ymgyrch Llyfrau Cymraeg i Gartrefi Gofal.

Thema 3 – Busnes a'r Economi

- Tudalen Busnes y Cyngor bellach yn hyrwyddo Gwefan Helo Blod (sef cynllun llywodraeth Cymru i adael Busnesau cyfieithu 500 o eiriau'r mis am ddim) angen datblygu'r dudalen yma ymhellach
- Bwletin Busnes y Cyngor Sir wedi hyrwyddo Gwasanaeth Helo Blod.
- Yn ystod Mis Mawrth Menter bydd dau ddigwyddiad gyda ffocws ar y Gymraeg - Sesiwn 1 awr 'Defnyddio'r Gymraeg' yn Eich Busnes a sesiwn Gymraeg o weithdy 'Dechrau a rhedeg eich busnes eich hun'

Thema 4 - Gweinyddiaeth fewnol y Cyngor

- Stondinau wedi eu cynnal i hyrwyddo Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg yn Tŷ Russell a Neuadd y Sir Rhuthun
- Wrthi yn creu cwrs / sesiynau Gofal Cwsmer a'r Iaith Gymraeg er mwyn cynnal hyfforddiant mewnol i staff rheng flaen y Cyngor Sir.
- Wedi cynhyrchu Cwis Owain Glyndŵr , Fidio Shwmae Sumae, Cwis Santes Dwynwen a fidio Dewi Sant i godi ymwybyddiaeth yn fewnol ac yn allanol i'r digwyddiadau yma
- Cydweithio gydag Adnoddau Dynol fel bod Lefel Sgiliau Cymraeg dymunol ei hanfodol yn ymddangos ar Swydd Ddisgrifiad bob swydd a hysbysebir gan y Cyngor Sir.
- Cydweithio gydag Adnoddau Dynol a Rheolwyr i bennu Categori Iaith o L1 i L5 ar gyfer holl swyddi'r Cyngor Sir
- Sesiynau Paned a Sgwrs wedi ail gychwyn.

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

Mae'r Strategaeth yn cyfrannu at ddatblygiad Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu sy'n un o amcanion allweddol Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2022-27.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ddim yn berthnasol

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

Ddim yn berthnasol

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Ddim yn berthnasol

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ddim yn berthnasol

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Ddim yn berthnasol

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** a **Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru**